



## **PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**2.00 PM DYDD MERCHER, 3 CHWEFROR 2021**

**VIA MICROSOFT TEAMS**

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

### **Rhan 1**

1. Croeso a galw'r rhestr
2. Cyhoeddiad y Cadeirydd
3. Datganiadau o fuddiannau
4. Cofnodion y cyfarfod blaenorol (*Tudalennau 5 - 26*)
  - 25 Tachwedd 2020
  - 10 Rhagfyr 2020
  - 8 Ionawr 2021
  - 13 Ionawr 2021
5. Ymgynghoriad ar Gynigion Cyllideb 2021/22 (*Tudalennau 27 - 42*)
6. Craffu Cyn Penderfynu
  - Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)
7. Blaenraglen Waith (*Tudalennau 43 - 46*)
8. Eitemau brys  
Unrhwyd eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgrifiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
9. Mynediad i gyfarfodydd

Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gellir gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

## **Rhan 2**

### 10. Craffu Eitem/Eitemau Preifat Cyn Penderfynu

- Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)
- Dewis eitemau priodol o agenda Is-bwyllgor (Cyllid) y Cabinet at ddiben craffu cyn penderfynu (amgaaeir adroddiadau Isbwyllgor Cyllid y Cabinet ar gyfer yr Aelodau Craffu)

**K.Jones  
Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig  
Port Talbot**

**Dydd Iau, 28 Ionawr 2021**

### **Aelodaeth y Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **M.Harvey**

**Is-gadeirydd:** **S.Rahaman**

**Cynghorwyr:** S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh,  
S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen,  
J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry,  
S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock

### **Nodiadau:**

- (1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.

- (2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwylgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwylgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.
- (3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymhell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwylgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.
- (4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.
- (5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

(O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:**

**Dydd Mercher, 30 Medi 2020**

**Cadeirydd:** Cynghorydd M.Harvey

**Is-gadeirydd:** Cynghorydd S.Rahaman

**Cynghorwyr:** S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt,  
S.A.Knoyle, S.Miller, J.D.Morgan, S.Paddison,  
S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock

**Swyddogion sy'n Bresennol:** A.Evans, A.Jarrett, N.Pearce, S.Phillips,  
C.Davies, C.Griffiths, K.Jones, C.Furlow-Harris,  
T.Davies, C.Plowman, H.Jones a/ac M.Roberts

**Gwahoddedigion y Cabinet:** Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones,  
L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer,  
P.A.Rees a/ac P.D.Richards

## 1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- 29 Ionawr 2020
- 5 Chwefror 2020
- 12 Chwefror 2020
- 19 Chwefror 2020
- 5 Mawrth 2020
- 21 Mai 2020
- 25 Mehefin 2020
- 23 Gorffennaf 2020
- 30 Gorffennaf 2020

## 2. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor i ystyried parhad casgliadau tecstilau ar ymwl y ffordd.

Gofynnodd Aelodau sut byddai'r grwpiau cymunedol neu'r banciau tecstilau yn gallu cael pris ymarferol, os na allai'r cyngor ei gael, drwy gasglu o ymyl y ffordd Eglurwyd nad oedd marchnad ar gyfer y tecstilau cymysg yr oedd y cyngor yn eu casglu; roedd marchnad ar gyfer dillad ailddefnyddiadwy oedd wedi'u didoli, ond pe bai'r cyngor yn didoli'r tecstilau cymysg, byddai angen i'r incwm fod yn fwy na chost y didoli er mwyn iddo fod yn ddichonadwy i'r cyngor, a chadarnhawyd gan swyddogion mai nid fel yna yr oedd hi.

Holwyd a oedd gan y cyngor farchnad am decstilau a gasglwyd yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff cartref (CAGC). Amlygodd swyddogion nad oedd gan y cyngor farchnad ar gyfer ailgylchu, a bod y farchnad yn y sector gwirfoddol a oedd yn barod i fynd ati i ddidoli'r tecstilau cymysg. Fodd bynnag roedd gan y cwmni gwastraff, FCC Environment, sy'n gweithredu safleoedd y cyngor ar hyn o bryd, fynediad at y marchnadoedd hynny. Cadarnhawyd bod y tecstilau a gasglwyd yn CAGC y cyngor yn mynd i gael eu hanfon i'w didoli.

Awgrymodd swyddogion y gallai aelodau rannu eu profiadau cymunedol â'i gilydd i drosglwyddo gwybodaeth mewn perthynas â threfniadau eraill er mwyn cael mynediad at ailgylchu, gan fod nifer o fannau 'Cash for Clothes' wedi'u trefnu ledled y fwrdeistref sirol; nodwyd hefyd y gallai swyddogion rannu manylion partïon y gwyddys eu bod yn cynnig arian parod am ddillad, ac yn amodol ar gymeradwyaeth, fanylion cynrychiolwyr cymunedol sy'n trefnu digwyddiadau. Amlygodd Aelodau fod cyfle i godi arian ar gyfer y gymuned drwy 'Cash for Clothes', a hyd yn oed gyda'r pandemig presennol, gellid ei wneud yn ddiogel a gellid dilyn rheolau cadw pellter cymdeithasol. Ychwanegwyd bod angen i Aelodau fod yn ymwybodol bod llawer o decstilau yn mynd i safleoedd tirlenwi yn y pen draw oherwydd bod llai o hen ddillad yn cael eu casglu ar hyn o bryd.

O ran amserlenni, pe bai'r gwasanaeth casglu o ymyl y ffordd yn dod i ben, nodwyd y byddai angen rhoi o leiaf un mis o rybudd, a digon o amser hefyd i hysbysu'r cyhoedd o'r newid.

Gofynnodd Aelodau a fyddai'r adnoddau casglu'n cael eu cadw e.e. cerbydau, pe bai'r amgylchiadau economaidd yn newid ar gyfer casglu o ymyl y ffordd, a chadarnhaodd swyddogion y byddai; Ychwanegwyd y byddai dwy flynedd yn mynd heibio cyn bod angen newid unrhyw un o'r cerbydau cyntaf.

Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg casglu deunyddiau oherwydd y pandemig a'r cyfyngiadau symud presennol; pe bai hyn yn parhau am

amser hir, gallai'r deunyddiau gael eu gwaredu mewn safle tirlenwi yn y pen draw, a/neu gael eu tipio'n anghyfreithlon yn lle. Nodwyd bod y cyngor yn gweithio'n unol â'r strategaeth genedlaethol sy'n bolisi sy'n annog lefel uchel o aildefnyddio, ailgylchu a chompostio; caiff y deunyddiau na all y cyngor eu haildefnyddio, eu hailgylchu neu eu compostio i weithfeydd Energy for Waste yn hytrach na safleoedd tirlenwi. O ran aelodau'r cyhoedd y gallai fod ganddynt ddeunyddiau ychwanegol, nodwyd bod cynllun eithrio'r cyngor yn dal i weithredu fel y gall y cyhoedd wneud cais, ynghyd â'r gwasanaethau wythnosol a phythefnosol; felly ni ddylai fod rheswm pam na ddylai preswylwyr waredu eu gwastraff yn briodol. Ychwanegodd swyddogion y byddent yn parhau i adolygu'r wybodaeth y mae'r cyngor yn ei chyhoeddi o ran tecstilau.

Amlygyd bod y safle CAGC agosaf ar gyfer Cwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman yng Nghwmtwrch Isaf, safle sy'n cael ei rannu â Chyngor Powys; Gofynnodd Aelodau a oedd preswylwyr Castell-nedd Port Talbot yn gallu defnyddio'r safle hwn o hyd oherwydd y cyfyngiadau symud lleol presennol. Rhoddwyd cyngor cyfreithiol ar y geiriad presennol yn rheoliadau diweddar Llywodraeth Cymru ynghylch pryd y gellid defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Cynigiwyd ac eiliwyd newid ffurfiol i bwynt (i) yr argymhelliaid a geir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd:-

- (i) Mae'r cyngor yn peidio â chasglu tecstilau o ymyl y ffordd ac yn newid ei farchnata'n unol â hyn, gan roi rhybudd o ddeufis i'r cyhoedd; a,
- (ii) Bydd swyddogion yn gweithio gydag unrhyw wasanaethau lleol sy'n barod i dderbyn a/neu dalu am decstilau, i helpu i hyrwyddo'r nifer cynyddol o ddigwyddiadau cymunedol a'r defnydd o gyfleusterau 'dod â phethau' fel y rheini a ddarperir mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref y cyngor.

Galwyd enwau at ddibenion penderfynu ar y bleidlais; cymeradwywyd y newid o ganlyniad i alw'r enwau.

Yn dilyn proses graffu, roedd y pwylgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

## CADEIRYDD

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

## Cabinet Scrutiny Committee

(Via Microsoft Teams)

**Members Present:** **4 November 2020**

**Chairperson:** **Councillor M.Harvey**

**Vice Chairperson:** **Councillor S.Rahaman**

**Councillors:** S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds and A.N.Woolcock

**Officers In Attendance** S.Phillips, A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, C.Griffiths, P. Jackson, J.Woodman-Ralph, C.Davies and C.Plowman

**Cabinet Invitees:** Councillors C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees and P.D.Richards

---

### 1. **Declarations of Interests**

The following Member made a declaration of interest at the commencement of the meeting:

Councillor S. Reynolds      Re: Agenda item 5 Department for Work & Pensions (DWP) Kickstart - Gateway Representative as she is a trustee to Canolfan Maerdy

Councillor N.Hunt      Re: Agenda item 4 Christmas Car Parking as his employment is within Port Talbot Town Centre.

### 2. **Minutes of the Previous Meeting**

The minutes of the meeting held on 30 September 2020 were approved.

**3. Pre-decision Scrutiny**

The committee scrutinised the following cabinet items:

Department for Work & Pensions (DWP) Kickstart – Gateway Representative

Members commended the scheme and discussed the scope and flexibility of the eligibility of the scheme. It was queried whether young people who were not on universal credit but have a small wage would be entitled to this scheme. Officers explained that the criteria was very strict, however if the member had any particular individuals that required support officers could advise them further.

Following scrutiny, the committee was supportive of the proposals to be considered by cabinet.

**4. Urgent Items**

Because of the need to deal now with the matter contained in Minute No. 5 below, the Chairman agreed that they could be raised as urgent items pursuant to Statutory Instrument 2001 No. 2290 (as amended).

Reason for Urgency

Due to the time element.

**5. Continuation of Covid19- Bus Industry Support.**

Members were updated on the Covid19-Bus Industry Support agreements with Passenger Transport Operators.

Discussions took place around advertisement on service buses as this is currently not promoted by Neath Port Talbot Council.

Officers amended the recommendation at the meeting, as follows:

1. That delegated authority be granted to the Director of Environment and Regeneration and the Head of Engineering and Transport and those officers so designated by them to implement the Welsh Government guidance on the

administration of the Bus Emergency Scheme (BES) while this mechanism continues to support the bus industry.

2. That delegated authority be granted to the Director of Environment and Regeneration and Head of Engineering and Transport to enter into Covid-19 Indemnity Agreements with Passenger Transport Operators in accordance with the guidance provided by Welsh Ministers, the Welsh Government Covid19-Bus Industry Support April 2020 and any subsequent guidance that may be issued by the Welsh Government.

Following scrutiny, Members supported the amended recommendations to cabinet.

## 6. **Access to Meetings**

**RESOLVED:** that pursuant to Section 100A(4) and (5) of the Local Government Act 1972, the public be excluded for the following items of business which involved the likely disclosure of exempt information as defined in Paragraph 14 of Part 4 of Schedule 12A to the above Act.

## 7. **Pre-Decision Scrutiny of Private Item/s**

Committee scrutinised the following private Cabinet item:

Crymlyn Burrows Transfer Station Remodelling – Appointment of Consultants

Members were updated on the private report on the appointment of consultants to support the Crymlyn Burrows Transfer Station Remodelling.

Following scrutiny, the Committee was supportive of the proposal to be considered by the Cabinet Board

Compulsory Purchase Order

Members were updated on private report relating to the process of undertaking a Compulsory Purchase Order (“CPO”) relating to properties in the vicinity of the proposed Neath Transport Hub.

Following scrutiny, the Committee was supportive of the proposal to be considered by the Cabinet Board

**CHAIRPERSON**

## PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

(O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:**

**Dydd Mercher, 11 Tachwedd 2020**

**Cadeirydd:** **Cynghorydd M.Harvey**

**Cynghorwyr:** S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Perry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock

**Swyddogion sy'n Bresennol:** A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, S.Phillips, C.Davies, C.Griffiths, K.Jones, N.Pearce, H.Jones, S.Brennan, T.Davies a/ac Davies

**Gwahoddedigion y Cabinet:** Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave

### **1. CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

**Adroddiad Diweddar a Monitro Cyllideb Refeniw Chwarter 2 - 2020-21**

Cyflwynwyd Adroddiad Diweddar a Monitro'r Gyllideb Refeniw i'r Pwyllgor ar gyfer Chwarter 2 2020-21.

Mewn perthynas â Hillside, gofynnodd yr Aelodau i Swyddogion am eglurder ynghylch y colledion a chadarnhad y byddai'r cyngor yn cael ei ad-dalu am y colledion hynny gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd bod y cyngor eisoes wedi cael ad-daliad o £467k am y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin; cyfrifwyd y gorwariant a ragwelwyd o £894k ar ôl ystyried yr ad-daliad.

Hysbyswyd yr aelodau fod hawliad o £2.3miliwn wedi'i gyflwyno ar gyfer ail chwarter eleni (y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi) ac o'r £2.3miliwn hwnnw, byddai £326,000 ychwanegol yn cael ei ddyrannu i Hillside. O ran y costau ychwanegol, sy'n dod i ychydig dros £500,000, byddai'r cyngor yn cyflwyno hawliadau i Lywodraeth

Cymru bob chwarter; foddy bynnag, byddai'r arian a dderbynir yn dibynnu ar faint o arian yr oeddent wedi'i adael yng Nghronfa Caledi'r Awdurdodau Lleol, a byddai angen i Swyddogion adolygu a fyddai'r swm yn ddigonol i ddelio â'r gorwariant. Gofynnwyd a fyddai'n rhaid i'r cyngor ariannu'r gorwariant sy'n weddill, a dywedodd Swyddogion y gallai fod elfen y byddai'n rhaid i'r cyngor ei hariannu ar hyn o bryd oni bai fod Llywodraeth Cymru yn darparu digon o arian yn ail hanner y flwyddyn; Byddai swyddogion yn parhau i fonitro hyn ac yn mynd ar drywydd Llywodraeth Cymru. Eglurodd swyddogion, oherwydd bod llai o incwm ar gael i dalu costau sefydlog rhedeg y cyfleuster, mae hyn wedi arwain at y golled a ragwelir ar gyfer gweddill y flwyddyn.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi bod gan y Gwasanaethau Parcio orwariant o £903,000 ac na fyddai unrhyw gyllid pellach ar gael ar gyfer colled incwm o ganlyniad i benderfyniadau polisi lleol; Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynglŷn â hyn ac a oedd unrhyw arwydd y byddai rhagor o arian yn cael ei ychwanegu at Gronfa Caledi Awdurdodau Lleol i gefnogi Cynghorau ledled Cymru ar hyn o bryd. Nodwyd y byddai'n rhaid i unrhyw awdurdod lleol ariannu costau ychwanegol/colled incwm o ganlyniad i benderfyniadau lleol a wneir; roedd trefniadau parcio am ddim ar waith ar gyfer canol trefi yng Nghastell-nedd Port Talbot drwy fis Gorffennaf tan ddiwedd mis Awst ac yna ailgyhoeddwyd y ffioedd o 1 Medi 2020. Felly, rhwng mis Gorffennaf a mis Awst, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw incwm ychwanegol. Yn yr un modd o ran glan môr Aberafan a lleoliadau amrywiol eraill, ail-gyflwynwyd y taliadau parcio o 1 Awst 2020, felly byddai cyfnod ym mis Gorffennaf lle na fyddai Llywodraeth Cymru yn cynnig ad-daliad. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru yn barod i dderbyn galwadau am gyllid ychwanegol ar gyfer llai o ymwelwyr ac am yr ail chwarter roedd y cyngor wedi cyflwyno cais gwerth £181,000 am adferiad. Ychwanegodd swyddogion fod y gorwariant a rhagdybir o £903,000 ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol ac os bydd arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru, byddai rhywfaint o'r gorwariant hwnnw'n cael ei ad-dalu.

Yn dilyn hyn, mewn perthynas â chronfeydd pellach posib, nodwyd bod Llywodraeth Cymru, yn y gyllideb atodol gyntaf, wedi darparu gwerth £180+ miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer Llywodraeth leol; roedd hyn bellach wedi'i gynyddu i £490miliwn ac roeddent hefyd wedi darparu taliadau ychwanegol, er enghraifft ymestyn Prydau Ysgol am Ddim drwy wyliau'r ysgol. Nodwyd bod £510miliwn wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yng Nghronfa Caledi Awdurdodau Lleol a allai

barhau i gynyddu pe bai cyfyngiadau symud pellach yn digwydd ac os oedd y gallu ariannol yno i wneud hynny.

Gofynnodd yr aelodau a oedd digartrefedd wedi arwain at unrhyw effeithiau ariannol i'r cyngor yn ystod y misoedd diwethaf ac os nad oedd, a oedd swyddogion yn rhagweld y gallai wneud hynny wrth symud ymlaen. Cadarnhawyd bod digartrefedd yn rhoi pwysau ychwanegol gan fod y cyngor wedi rhoi unigolion digartref mewn llety penodol ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth; fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r costau ychwanegol o ganlyniad i hyn wedi'u had-dalu drwy'r hawliadau misol a gyflwynwyd. Ychwanegwyd bod y cyngor hefyd wedi bod yn gwneud ceisiadau i Lywodraeth Cymru am fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol i alluogi gwelliannau pellach i'r gwasanaeth digartrefedd dros weddill y flwyddyn.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r effaith ariannol yr oedd Hillside wedi'i chael ar y cyngor, a dywedodd Swyddogion y byddai'r cyfleuster fel arfer yn cael ei feddiannu'n llawn yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, o ganlyniad i COVID-19 roedd cyfyngiadau ar faint o bobl y gellid eu gosod yno, a oedd wedi effeithio ar lefel yr incwm; fel arfer ni fyddai Hillside yn cael effaith ariannol ar y cyngor.

Gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth am orwariant Theatr Frenhinol y Dywysoges; roedd yr holl theatrau wedi'u cau ers mis Ebrill 2020 ac roeddent yn annhebygol o agor cyn y flwyddyn ariannol nesaf, o ganlyniad roedd incwm wedi'i golli, er bod y cyngor wedi gwneud rhywfaint o arbedion ar gostau, gan na chynhyrchwyd unrhyw incwm oherwydd eu bod ar gau. Cadarnhawyd bod y cyngor wedi cael ad-daliad o £76,000 ar gyfer Theatr y Dywysoges Frenhinol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin; y golled incwm net a ragwelwyd ar gyfer gweddill y flwyddyn oedd £62,000. Ychwanegodd swyddogion fod hyn yn effeithio ar bob theatr yng Nghastell-nedd Port Talbot; roedd yr effaith ar Ganolfan Gelfyddydau Pontardawe yn llai na'r effaith ar Theatr y Dywysoges Frenhinol felly ni chafodd ei chrybwyllyn yr adroddiad a ddosbarthwyd ac roedd Neuadd Gwyn wedi llwyddo i wneud cais am gymorth grant o £207,000 ar gyfer eleni i wneud iawn am eu colled incwm. Cadarnhaodd swyddogion fod y cyngor wedi cynnwys cais o fewn y £2.3miliwn ar gyfer yr ail chwarter, a'i fod yn cynnwys arian ar gyfer y tri mis ychwanegol (mis Gorffennaf i fis Medi) ar gyfer Theatr y Dywysoges Frenhinol a theatrau eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot; ychwanegwyd ei fod yn ffrwd ariannu wahanol i'r hyn yr oedd Neuadd Gwyn wedi'i ddefnyddio.

Eglurodd Aelod y Cabinet dros Gyllid, pan grybwyllywyd gorwariant yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, y byddai weithiau'n cyfeirio at incwm yr oedd y cyngor wedi'i golli ac nid gorwariant y cyngor yn y gwasanaeth penodol; roedd Aelod y Cabinet wedi bod mewn cysylltiad â Julie James AS ac roedd yn cyfarfod â Gweinidogion y Cabinet yn rheolaidd i drafod y materion sy'n ymwneud ag ariannu. Hysbyswyd yr aelodau hefyd fod y canghellor wedi canslo'r adolygiad tair blynedd o wariant eleni, ond y byddai'n gwneud datganiad ar 25 Tachwedd 2020.

Diolchodd y pwyllgor i'r holl staff yn y Gwasanaethau Ariannol am eu gwaith drwy gydol pandemig COVID-19.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

#### Canolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan - Prosiect Porth Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Derbyniodd yr aelodau adroddiad ar Ganolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan, Prosiect Porth Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

Gofynnwyd a allai Swyddogion ystyried ychwanegu pwyntiau gwefru cerbydau electronig at fanylion y prosiect gan y byddai'n gyfle a gollwyd i beidio â'u cynnwys. Cadarnhaodd swyddogion fod cynlluniau ar y gweill i gyflwyno o leiaf un neu ddua bwynt gwefru cerbydau trydan, ond roeddent yn gweithio ar y capaciti ar hyn o bryd gan fod angen llawer mwy o bŵer ar y pwyntiau gwefru a byddai angen goleuadau a chyfleusterau ychwanegol ar gyfer y cartrefi modur hefyd. Ychwanegwyd bod swyddogion hefyd yn gweithio ar strategaeth ehangach mewn perthynas â phwyntiau gwefru cerbydau trydan a oedd yn cynnwys eu cyflwyno i'r ardaloedd cyhoeddus ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Mewn perthynas â'r man chwarae dynodedig, nodwyd nad oedd llawer iawn o arwynebedd i weithio gydag ef oherwydd gofynion y lleoliad, gan gynnwys bod angen iddo fod o fewn golwg i'r caffi er mwyn i oedolion fonitro eu plant; fodd bynnag, roedd chwarae antur wedi cynnwys rhai dyluniadau a fyddai'n cael eu hystyried a bydd y man chwarae yn addas i bobl anabl a oedd hefyd wedi'i gynnwys yn y dyluniad.

Gofynnodd yr aelodau a oedd disgwyliadau o ran nifer uchel yn manteisio ar y cartrefi modur ac, os felly, a ellid cynnwys cyfleusterau ychwanegol pe bai'r galw yno; nodwyd ei bod yn anodd rhagweld y nifer a fydd yn manteisio arno, ond roedd galw mawr am archebion ar

gyfer safleoedd cartrefi modur yn ddiweddar a bu ymchwiliadau o'r blaen. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn profi'r farchnad i weld a ellid ailadrodd hyn mewn meysydd eraill.

Gofynnwyd i swyddogion faint o gyfranogiad oedd gan yr aelodau lleol wrth gyflawni'r prosiect; bu'n rhaid datblygu'r prosiect mewn cyfnod byr o amser oherwydd y cysylltwyd â ni ym mis Hydref 2020 a oedd yn golygu nad oedd cyfnod ymgynghori helaeth a datblygwyd y manylion o brofiad y swyddogion twristiaeth yn seiliedig ar yr hyn a grybwyllyd yn y gorffennol. Fodd bynnag, yn yr ystyr ehangach, bydd cyfle i ymgysylltu ag aelodau lleol Cwm Afan gan fod cynnig gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yngylch prif gynllun ar gyfer Cwm Afan.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwylgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

## 2. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

## 3. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Craffodd y pwylgor ar yr eitem breifat ganlynol ar agenda'r Cabinet:

### Dymchwel Eiddo

Cyflwynwyd adroddiad preifat i'r aelodau ar ddymchwel yr eiddo a dynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn dilyn craffu, roedd y pwylgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## **CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

(O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:**

**Dydd Mercher, 13 Ionawr 2021**

**Cadeirydd:** **Cynghorydd M.Harvey**

**Is-gadeirydd:** **Cynghorydd S.Rahaman**

**Cynghorwyr:** S.E.Freeguard, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock

**Swyddogion sy'n Bresennol:** A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, C.Davies, C.Griffiths, K.Jones, C.Plowman, H.Jones, N.Pearce, R Davies, R.Turner a/ac J.Woodman-Ralph

**Gwahoddedigion y Cabinet:** Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave

---

### 1. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

**Adroddiad Diweddar a Monitro Cyllideb Refeniw 2020-21**

Cyflwynwyd Adroddiad Diweddar a Monitro Cyllideb Refeniw 2020-21 i'r Pwyllgor a roddodd drosolwg o oblygiadau ariannol COVID-19 ar Adnoddau Ariannol y Cyngor a Chyllideb 2020/21.

Nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi £424 mil ar gyfer colli incwm i Leoliadau'r Celfyddydau yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, a gofynnwyd sut y defnyddiwyd yr arian hwnnw. Nodwyd bod y cyngor wedi cyllidebu ar gyfer incwm drwy gydol y flwyddyn; roedd y lleoliadau wedi bod ar gau am naw mis, ac roedd staff yn disgwyl iddynt fod ar gau am dri mis olaf y flwyddyn. Soniwyd mai'r arian hwn oedd cyfanswm gwerth yr incwm y byddai'r cyngor wedi bod yn ei gynhyrchu, a oedd yn talu'r

costau felly roedd yr holl gostau wedi'u had-dalu. Ychwanegwyd nad oedd staff Lleoliadau'r Celfyddydau wedi cael eu rhoi ar ffyrlo, a'u bod wedi'u hadleoli yn lle.

Mewn perthynas â lleoliadau preswyl i blant sydd mewn perygl, nododd yr adroddiad y bu gorwariant o £385k; gofynnwyd a oedd y cyngor yn rhagweld y byddai'r angen am fwy o leoliadau preswyl yn cynyddu ymhellach. Cadarnhaodd swyddogion y bu ychydig dros ddau leoliad ychwanegol eleni; roedd y gyllideb wedi cynyddu o ddau leoliad gan fod 11 o blant wedi'u lleoli erbyn hyn ac roedd y staff yn disgwyl i'r nifer hwn aros yn debyg am beth amser. Nodwyd nad oedd y cyngor yn rhagweld angen ychwanegol am ofal preswyl a fyddai'n uwch na'r 11 a grybwyllywd, er ei fod yn anodd asesu hyn. Roedd swyddogion yn rhagweld y byddai mwy o bwysau ar y system Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) o ganlyniad i effaith COVID-19; foddy bynnag, roedd disgwyl y gellid ymdrin â hyn o fewn y systemau gofal maeth, gan y byddai'r rhan fwyaf o leoliadau gofal ychwanegol mewn gofal maeth ac nid mewn gofal preswyl.

Amlygodd yr adroddiad fod cyllid Llywodraeth Cymru ar gael ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Mawrth, er mwyn cynyddu'r gyfradd fesul awr a dalwyd (£1 yr awr) i ddarparwyr gofal cartref a oedd yn profi costau ychwanegol oherwydd y pandemig; gofynnwyd a oedd y cynnydd mewn cyflog ar gyfer y darparwyr allanol yn unig.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod gwahanol becynnau o arian ychwanegol ar gael ar gyfer gofal preswyl a gofal cartref; o ran gofal cartref, roedd y cynnydd o £1 mewn cyflogau ar gyfer y darparwyr allanol, ond byddai'r cyngor yn cael ad-daliad o £1 ar gyfer darparwyr allanol a mewnol, felly byddai'r gwasanaethau mewnol hefyd yn elwa o hyn.

Nodwyd bod gorwariant Cyfathrebu a Marchnata o £26 mil o ganlyniad i gostau ychwanegol a gafwyd oherwydd effaith COVID-19, megis arwyddion, baneri; Dim ond 25% o'r costau a oedd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, a soniodd yr Aelodau fod y ganran hon yn siomedig. Soniodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru wedi darparu swm sylweddol o gymorth ariannol fel y nodwyd yn yr adroddiad, ond mewn rhai achosion roeddent wedi dweud nad oeddent yn mynd i dalu'r holl gostau gan eu bod yn credu y dylai rhai o gyllidebau sylfaenol, cynlluniau wrth gefn ac adnoddau cyffredinol y cyngor gyfrannu at orwariant penodol.

Hysbyswyd yr Aelodau fod gan y Rheolwyr Gofal Cymunedol danwariant o £78 mil, a oedd yn bennaf oherwydd gostyngiad yn nifer

y taliadau a wnaed i aseswyr allanol ar gyfer asesiadau Colli Rhyddid (DoLS); gofynnwyd a oedd y rheolau ar gyfer y ceisiadau hyn wedi newid neu a oedd unigolion wedi'u hepgor yn y cyd-destun hwn, gan fod y tanwariant yn eithaf arwyddocaol. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd hyn yn wir a bod COVID-19 wedi effeithio ar nifer yr asesiadau DoLS a gynhaliwyd, a adlewyrchwyd yn y tanwariant; Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn cael gwybod manylion y rhestr aros ar gyfer yr asesiad hwn ac yn rhoi'r wybodaeth i'r Aelodau yn unol â hynny.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwylgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

### Ymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft 2021/22

Cyflwynwyd Cyllideb Ddrafft ar gyfer Ymgynghoriad 2021/22 i'r Aelodau a oedd yn cynnwys cynigion cyllideb ddrafft, arbedion ariannol, gostyngiadau mewn gwasanaethau a chynigion cynhyrchu incwm; yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, cynigiwyd y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn dilyn y cyfarfod ac yn para hyd at 12 Chwefror 2021.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith y byddai'r Pwyllgorau Craffu unigol yn cael cyfreith i graffu ar feisydd o'r gyllideb ddrafft, o fewn eu cylchoedd gwaith, yn fanylach yn eu cyfarfodydd sydd i ddod.

Dywedwyd bod y cynigion a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn ystyried y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y cyfnod cyn y Nadolig. Soniodd swyddogion fod yr adroddiad yn cynig pennu cyllideb o £317m a oedd yn cynnwys defnyddio £3.1m o gronfeydd wrth gefn, ymgynghori ar gynnydd o 3.75% yn nhreth y cyngor a chynigion buddsoddi o tua £7.7m ar ben chwyddiant, yn bennaf er mwyn cyflawni'r cynnydd yn y galw am wasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf; bydd angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â blynnyddoedd ariannol yn y dyfodol, unwaith na fydd COVID-19 yn her mwyach ac ar ôl i Lywodraeth y DU gynnal ei hadolygiadau o wariant, gan roi lefelau ariannu dangosol i flynyddoedd ariannol dilynol.

Nodwyd bod setliad dros dro Castell-nedd Port Talbot yn chweched allan o'r 22 Awdurdod Lleol o ran cyfran ddiwygiedig o'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag roedd gan Castell-nedd Port Talbot naill ai'r ail neu'r drydedd gyfradd treth y cyngor uchaf yng Nghymru, gyda chynnydd arfaethedig o 3.75% ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf; Gofynnodd yr Aelodau sut roedd Lywodraeth Cymru yn cyfiawnhau hyn. Cadarnhaodd swyddogion fod Lywodraeth Cymru

wedi rhoi cynnydd setliad cyffredinol o 3.8% ledled Cymru; Roedd cynnydd Castell-nedd Port Talbot yn well na'r cyfartaledd, ar 4.2%. Tynnwyd sylw at y ffaith mai un o brif sbardunau'r fformiwla, i ddosbarthu'r £4.6 biliwn ar draws pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, oedd y boblogaeth; roedd poblogaeth Castell-nedd Port Talbot wedi gwella ychydig o'i chymharu â sefyllfa Cymru gyfan, a oedd yn un o'r newidiadau mawr a'r rhesymau pam yr oedd rhai Awdurdodau Lleol wedi elwa mwy nag eraill.

Gofynnodd yr Aelodau a ellid dylanwadu ar Lywodraeth Cymru i newid yr asesiad gwariant safonol fel rhan o'r setliad terfynol gan nad oedd yn diwallu anghenion rhai cynghorau ar hyn o bryd. Nodwyd bod hyn yn rhywbeth y gellid ymchwilio iddo ar gyfer y blynnyddoedd i ddod; er mwyn gallu cael dylanwad gwell a chyfleoedd i gael gwell adnoddau. Soniwyd na fyddai'n fuddiol i unrhyw un geisio gwneud hyn rhwng nawr a'r setliad terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Gofynnwyd i swyddogion roi sylwadau ar batrymau'r cronfeydd wrth gefn a adlewyrchwyd yn y ffigurau a ddarparwyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Gwasanaethau Corfforaethol.

Y Flwyddyn Ariannol	Cau'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol	Cronfa wrth Gefn Gyffredinol fel % y Gyllideb
2018/19	£20.9m	7.4%
2019/20	£19.9m	6.9%
2020/21 (rhagolwg)	£14.6m	4.8%
2020/21 (cyllideb ddrafft)	£12m	3.8%

Esboniwyd bod COVID-19 wedi effeithio ar y rhagolwg gwreiddiol ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol hon (2020/21); manylwyd ar y rhagolwg newydd yn y tabl uchod. Nododd yr adroddiad rai o'r mesurau doeth yr oedd y cyngor wedi'u mabwysiadu yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, ynghyd â'r cyfraddau casglu treth y cyngor sylweddol a gyflawnwyd; roedd y cyngor wedi bod yn cyflawni cyfraddau casglu rhwng 97.9% - 98% mewn blynnyddoedd blaenorol, a oedd wedi rhoi hwb i faint o arian a oedd yn cael ei gadw yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Ychwanegwyd bod hyn wedi helpu i roi'r cyngor mewn gwell sefyllfa eleni i allu cynnig, fel rhan o'r gyllideb ddrafft, ddefnyddio £3.1m arall ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i alluogi'r cyngor i fod mewn gwell sefyllfa ariannol ar gyfer 2022/23,

pan ystyriwyd ystyriaethau pellach yn y broses o bennu cyllidebau ynghyllch yr hyn a oedd yn fforddiadwy a blaenoriaethau'r cyngor.

Gofynnwyd a ellid rhannu union eiriad yr ymgynghoriad, a oedd yn mynd allan i'r cyhoedd fel y gallant ymateb, gyda'r Aelodau. Cytunodd swyddogion i ddosbarthu'r geiriad i'r Aelodau a thynnwyd sylw at y ffaith y byddai hefyd yn cael ei lanlwytho i wefan y cyngor. Rhoddwyd yr wybodaeth ganlynol i'r Aelodau mewn perthynas â nod yr ymgynghoriad, sef holiadur am broses bennu cyllideb y cyngor ar gyfer holiadur 2021/22, a'r mathau o faterion yr oedd yn mynd i'w codi:

